OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 1041

## Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2017

## RHAN 1

### Safonau dŵr

**Iachusrwydd**

**4.**—(1) Mae cyflenwad dŵr preifat i'w ystyried yn iachus os bodlonir yr holl amodau a ganlyn—

(a) nad yw'n cynnwys unrhyw ficro-organedd, parasit neu sylwedd mewn crynodiad neu werth a fyddai, ar ei ben ei hun neu ar y cyd ag unrhyw sylwedd arall, yn peri perygl posibl i iechyd dynol;

(b) ei fod yn cydymffurfio â'r crynodiad neu'r gwerth rhagnodedig ar gyfer pob paramedr; ac

(c) bod y dŵr yn bodloni'r fformiwla "[nitrad]/50 + [nitraid]/3 $\leq$ 1", pan fo'r bachau petryal yn dynodi'r crynodiadau mewn mg/1 ar gyfer nitrad (NO3) a nitraid (NO2).

(2) Ystyr cyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at ddŵr afiachus yw nad yw'r gofyniadau ym mharagraff (1) wedi eu bodloni.